# SWYDD DDISGRIFIAD

**Teitl y Swydd:** Rheolwr Prosiect Meddwl Ymlaen Gwent

**Cyflogir gan:** ProMo-Cymru

**Cyflog:** Graddfa D pwynt 1 £31,301 - Graddfa D pwynt 8 £37,563 y flwyddyn (Cyflog cychwynnol £31,301)

**Lleoliad:** Swyddfeydd ProMo-Cymru a gweithio o gartref

**Oriau gwaith:** Llawn amser (35 awr yr wythnos). Croesawir ceisiadau rhan amser/rhannu swydd.

**Gwyliau:** 23 diwrnod y flwyddyn

**Hyd y cytundeb:** Parhaol (yn amodol ar gyllid)

**Yn atebol i:** Uwch Reolwr, Grŵp Llywio Prosiect Meddwl Ymlaen Gwent

**Yn gyfrifol am:** Swyddog Prosiect Meddwl Ymlaen Gwent

## Gweledigaeth ProMo-Cymru

Mae ProMo-Cymru yn gweithio i sicrhau bod pobl ifanc a chymunedau yn wybodus, yn cyfrannu, yn gysylltiedig ag yn cael eu clywed.

## Ein Dull o Weithio

Rydym yn cydweithio i greu cysylltiadau rhwng pobl a gwasanaethau gan ddefnyddio creadigrwydd a thechnoleg ddigidol. Yn cefnogi'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus i ddychmygu, profi a chreu gwasanaethau gwell.

Mae ProMo-Cymru yn gweithio gyda chymunedau trwy gyfathrebiadau, eiriolaeth, ymgysylltiad diwylliannol, digidol a chynnyrch cyfryngol. Mae dros 20 mlynedd o drosglwyddo prosiectau gwybodaeth ieuenctid digidol yn dylanwadu ein gwaith. Rydym yn rhannu'r wybodaeth yma drwy hyfforddiant ac ymgynghoriad, yn creu partneriaethau hir dymor fydd yn buddio pobl a sefydliadau.

Mae ProMo-Cymru yn elusen gofrestredig ac yn fenter gymdeithasol; mae'r elw yn cael ei fuddsoddi'n ôl i'n prosiectau cymunedol.

## PRIF BWRPAS Y SWYDD YMA

Mae ProMo yn chwilio am **Reolwr Prosiect** trefnus a phrofiadol i arwain a chydlynu trosglwyddiad y prosiect cyllidwyd gan y Loteri Genedlaethol, Meddwl Ymlaen Gwent.

Wrth weithio law yn llaw dros gyfnod 5 mlynedd gyda'n prif bartner trosglwyddo Mind Casnewydd, ein partneriaid prosiect a phobl ifanc, byddem yn cynllunio dulliau newydd ymyrraeth gynnar ac atal problemau iechyd meddwl ymysg pobl ifanc sydd yn byw yng Ngwent.

Fel aelod gwerthfawr o'r tîm ProMo-Cymru byddech yn trosglwyddo'r prosiect cyffroes ac arloesol Meddwl Ymlaen. Byddech yn gosod pobl ifanc wrth galon y dylanwadu a throsglwyddo newid ystyrlon i wasanaethau iechyd meddwl yng Ngwent sydd yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, byddech yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o hapddalwyr gan gynnwys pobl ifanc, Mind Casnewydd, Mind Lleol yng Ngwent a Gwasanaethau Ieuenctid Gwent trwy gyfnod y prosiect.

Byddech yn:

- Creu a chadw perthnasoedd gyda phartneriaid a hapddalwyr i hysbysu, dylanwadu a gweithredu newid ystyrlon.
- Meithrin, cefnogi, grymuso a chyfarparu pobl ifanc i fod yn gyfranogwyr gweithgar i sicrhau newid ystyrlon
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau, offer ac ymyriadau fel sydd ei angen i godi ymwybyddiaeth, cynyddu sgiliau a gwybodaeth, a sicrhau newid systemig
- Gweithio gyda'r partneriaid o fewn egwyddorion craidd y prosiect i gyflawni nodau a chanlyniadau nodir yn y cyfnod datblygu:
    - Cyd-gynhyrchu
    - Darpariaeth gynhwysol
    - Cydraddoldeb a chynhwysiad
    - Ychwanegu at Asedau Cymunedol
    - Dysgu
    - Cyfathrebu
    - Cynaladwyedd
    - Cynllunio yn canolbwyntio ar y person ifanc

## PRIF DDYLETSWYDDAU

### 1. Arwain a datblygu'r prosiect

- Arwain, cydlynu a goruchwylio trosglwyddiad llwyddiannus y prosiect Meddwl Ymlaen Gwent
- Diweddaru partneriaid a'r grŵp llywio ar y prif ddatblygiadau/problemau

- Datblygu a chynnal perthynas gwaith da gyda phrosiectau Meddwl Ymlaen eraill, partneriaid prosiect, hapddalwyr, grwpiau allanol, fforymau, rhwydweithiau, gwasanaethau ac asiantaethau
- Cysylltu â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i adolygu a gwerthuso cynnydd y prosiect
- Arwain ar greu, cynnal a dosbarthu dogfennau, cynlluniau, adroddiadau, llinellau terfyn ac amserlenni'r prosiect, fel sy'n ofynnol
- Sicrhau datblygiad a gweithrediad gwelliannau neu unrhyw newidiadau eraill sydd yn cael eu hadnabod wrth adolygu a gwerthuso
- Bod yn brif bwynt cyswllt mewnol ac allanol lle bo angen
- Hybu gwelliant parhaol, dysgu rhanedig a datblygiad

**2. Staffio**

- Darparu arweiniad, cyfarwyddiad a chefnogaeth i dîm y prosiect
- Yn gyfrifol am recriwtio, anwytho, cefnogi, datblygu, goruchwylio ac arfarnu'r gweithlu *(ble'n briodol)*
- Sicrhau rheolaeth llinell a goruchwyliaeth reolaidd i reoli perfformiad y gweithlu
- Hyfforddi, cefnogi, mentora, a meithrin staff penodedig
- Gweithio ynghyd â chydweithwyr i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau AD yn cael eu hadolygu a'u cynnal.
- Sicrhau bod asesiadau risg priodol a pherthnasol yn cael eu gwneud

**3. Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

- Gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr i hyrwyddo cysylltiad ac ymrwymiad gweithgar pobl ifanc, eu cefnogi a'u meithrin i hwyluso'u potensial lawn wrth gyfrannu i gynllunio, datblygu, trosglwyddo, adolygu a gwerthuso prosiect
- Sicrhau cyfathrebu mewnol effeithiol rhwng partneriaid gyda chyfarfodydd, e-byst, a sgyrsiau
- Cysylltu, a chyfathrebu'n effeithiol ac yn broffesiynol gydag amrywiaeth eang o unigolion, gweithwyr proffesiynol, a disgyblaethau
- Cyflwyno trafodaethau, cyflwyniadau, gweithdai ble'n briodol ac fel sydd ei angen

**<u>PROFIAD A MANYLEB PERSON:</u>**

| **Gofynion** | **Hanfodol** | **Dymunol** | **Sut Dynodir/ Asesir:** |
|---|---|---|---|
| Addysg/ Cymwysterau: | Cymwyster(au) perthnasol mewn maes cysylltiedig | Cymhwyster rheoli prosiect | Ffurflen gais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Profiad | Profiad dangosadwy mewn rheoli prosiect mewn maes cysylltiedig<br><br>Gweithio gydag amrywiaeth eang o hapddalwyr gan gynnwys buddiolwyr, darparwyr gwasanaeth, penderfynwyr, cyllidwyr<br><br>Gweithio yn y maes hawliau, cyfranogiad, ymgysylltiad, eiriolaeth, iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc | Profiad yn gweithio trwy'r broses Cynllunio Gwasanaeth neu debyg | Ffurflen gais a chyfweliad |
| Sgiliau: | Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar gwych<br><br>Sgiliau rhyngbersonol da<br><br>Sgiliau rheoli amser, trefnu, cynllunio ac amldasgio gwych<br><br>Sgiliau TGCh gwych | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| Gwybodaeth: | Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion amrywiol plant a phobl ifanc Cymru, a'r gwasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt<br><br>Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth a pholisi perthnasol yng Nghymru, sydd yn ymwneud â phlant, pobl ifanc, eu hiechyd meddwl a lles<br><br>Dealltwriaeth eang o beth yw gwasanaeth digidol da | Lefel uchel o lythrennedd digidol gan gynnwys gwe, cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg aml-gyfrwng | Ffurflen gais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nodweddion Personol: | Y gallu i ysgogi, ysbrydoli ac arwain<br><br>Y gallu i weithio'n annibynnol ac ar liwt eich hun, yn ogystal â fel rhan o dîm<br><br>Hyblyg a pharod i newid<br><br>Angerddol am wella bywydau pobl ifanc a chymunedau yng Nghymru<br><br>Ymrwymiad i weithio mewn ffordd sydd ddim yn barnu nac yn gwahaniaethu | | Cyfweliad |
| Gofynion eraill: | Ymrwymiad i weithio i, a chynnal gwerthoedd, ethos a diwylliant ProMo-Cymru, gan gynnwys dull wedi'i selio ar hawliau.<br><br>Parodrwydd i deithio ledled Cymru fel sydd angen<br><br>Parodrwydd i weithio oriau hyblyg yn ôl angen busnes<br><br>Mae'r swydd yma yn ddibynnol ar wiriad DBS uwch | Trwydded gyrru<br><br>Siaradwr Cymraeg | Ffurflen gais a chyfweliad |

**Gall y swydd ddisgrifiad yma fod yn destun i adolygiad a newidiadau i gynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau penderfynir mewn ymgynghoriad â'r un sydd yn dal y swydd. Nid yw'n fwriad iddo fod yn anhyblyg, ond dylid ei ystyried fel darparu fframwaith mae'r unigolyn yn gweithio iddo.**

###DIWEDD###